

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community
Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth, 24/04/2018.

Minutes of meeting held Tuesday Evening, 24/04/2018.

Presennol / Present: Mrs Lynn Hervouet (Cadeirydd 'Clerc Dros Dro' / *Chairperson* 'Temporary Clerk') **LH**, Ms Sandra Thomas ('Cadeirydd Dros Dro' / *Temporary Chairperson*) **ST**, Mr Arthur Thomas **AT**, Mr Mark Evans **MEE**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Chris Davies, (Is-gadeirydd / *Vice Chairperson*) **CD**, Mr Cenwyn Williams **CW**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**.

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.

***Yn anffodus oherwydd y tywydd nid roeddem yn gallu dechrau ein cyfarfod yn y cae chwarae felly aethom syth i'r Y Ganolfan am 6.30y.h.**

****Unfortunately due to the weather we were not able to start our meeting in the playing field so we went straight to Y Ganolfan at 6.30pm.***

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim / *None*.

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 27/03/2018/ Minutes of last meeting 27/03/2018

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir, Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **AT**.

The minutes were confirmed correct, Proposed by ST, Seconded by AT.

4. Cyngor Cymuned - Balans yn y banc ar 1/4/2018 / Community Council Bank balance on 1/4/2018

4.1

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/04/2018)	-	£ 5,987.33
Cynilo "BMM" (ar 22/03/2018)	-	£ 4,046.70
Cyfanswm ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/18 /	=	£10,034.03
<i>Total at the end of the financial year 2017/18</i>		

Atodwyd Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanidan 01/01/2018 - 01/04/2018, fe paratowyd rhain gan **SAJ**. / *Attached are Llanidan Community Council Accounts 01/01/2018 - 01/04/2018, these were prepared by SAJ.*

- 4.2 Taliadau ar lein - tydi **MEE** ddim yn hoffi talu biliau ar lein, os oes unrhyw daliad yn cael ei wneud ffordd hyn a oes phosib i **LH** llungoipio'r statement banc i ddangos i'r cynghorwyr eraill? - oes.
Payments online - MEE does not like paying bills online, if any payment is made this way can LH take the bank statement to show the other councillors?
 - yes.
- 4.3 Mandad y Banc - Mae angen newid mandad y banc. Bydd yn rhaid i **MEE** ac **AT** lenwi ffurflenni oherwydd eu llofnod nhw sydd ar y mandad. Bydd angen i ni ysgrifennu llythyr i ddweud wrth y banc bod angen i ni ganslo dau "standing order" ar gyfer y ddau gyflog y cyn glercod. Bydd rhaid tynnu enw **SAJ** ag efalle cyn aelodau neu glerc arall oddi ar mandad y banc ac ychwanegu enw **LH** er mwyn iddi cael mynediad i'r cyfrif gyda awdurdod y clerc. Bydd angen cyfarfod brys rhwng **LH**, **ST** a **CD** ymhen bythefnos (nos Fawrth 8fed Mai 2018), i wneud yn siwr bod newidiadau banc wedi mynd trwadd.
Bank's Mandate - The bank's mandate needs to be changed. MEE and AT will have to fill in forms because it is their signatures that is on the mandate. We will need to write a letter to tell the bank that we need to cancel two "standing orders" for both wages of previous clerks. SAJ's name and other previous members or previous clerk will need to be removed from the bank's mandate and add the name of LH so that she can access the account with the authority of the clerk. There will be an urgent meeting between LH, ST and CD in two weeks (Tuesday 8th May 2018), to make sure bank changes have gone through.
- Cynigwyd gan **MEE**, Eiliwyd gan **AT**. / *Proposed by MEE, Seconded by AT.*
- 4.4 Bydd angen i ni ysgrifennu llythyr arall i'r banc i ofyn os gawn ni ail ddechrau ail ddefnyddio sieciau eto. Mae **LH** yn ddigon hapus i ddefnyddio sieciau fel ffurf taliad oherwydd bydd angen gofyn am ddau lofnod bob tro bydd angen talu biliau.
We will need to write another letter to the bank to ask if we can start re-using cheques again. LH is happy enough to use cheques as a payment form because two signatures will need to be requested whenever bills are required.
- 4.5 Nid yw **LH** yn cael tâl am fod yn glerc drost dro, ond mae aelodau'r cyngor yn teimlo fel eu bod nhw eisiau iddi cael rhyw fath o dâl am y gwaith mae hi wedi ei wneud drost y mis diwethaf.
LH does not receive any pay for being a temporary clerk, but council members feel like they want to pay her for the work she has done within the last month.
- 4.6 Nid yw **LH** yn deallt TAW ag felly efallai y bydd angen rhywfaint o help.
LH does not understand VAT and therefore may require some help.

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 1/4/2018 / Y Ganolfan Bank balance on 1/4/2018

Cyfrif "Community" (ar 01/04/2018)	-	£ 4,919.22
Cynilo "BMM" (ar 10/04/2018)	-	£ 406.08
Cyfanswm ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/18	=	£ 5,325.30
<i>Total at the end of the financial year 2017/18</i>		

Mae Dave Shone (Trysorydd y Ganolfan) wedi gofyn i **LH** os oedd angen help arni hi gyda'r cyfrif Y Ganolfan tra rydym yn trio dod o hyd i glerc parhaol. Mae **LH** wedi derbyn ei gais ac wedi elguro iddo mae trefniadau drost dro yw hyn.
Dave Shone (Y Ganolfan Treasurer) has asked LH if she needed help with the Y Ganolfan account's while trying to find a permanent clerk. LH has received its request and has explained to him that this is only on a temporary basis.

5. Cyllid / Finance

5.1 Cadarnhau Taliad / Payment Confirmed

£548.00 – Cyflog Y Clerc SAJ (Ionawr, Chwefror a Mawrth).

£548.00 – Cyflog Y Clerc MEJ (Ionawr, Chwefror a Mawrth).

£137.00 – HMRC (PAYE Ionawr, Chwefror a Mawrth).

£144.00 - Adnewyddu Aelodaeth Un Llais Cymru/ Renewing Membership One Voice Wales.

£47.58 - I SAJ am inc du a lliw i'r printar pan roedd yn glerc, rhoddwyd caniatâd gan y Cadeirydd i dalu'r bil yma / To SAJ for black and coloured ink for printer while he was the clerk, permission was given by the Chairperson to pay this bill.

*** Nodwyd bod cyn glerc MEJ wedi derbyn taliad o £528.00 mewn camgymeriad ond ei fod wedi ad-dalu yn dól i'r Cyngor Cymuned Llanidan ar Ddydd Llun 9/4/2018.**

**** It has been noted that a previous clerk MEJ has received a payment of £528.00 by mistake and that he has re-paid the amount back to Llanidan Community Council on Monday 9/4/2018.***

5.2 Biliau iw Dalu / Bills for Payment

£35.75 - I LH am bapur A4 a inc du a lliw i'r printar / To LH for A4 paper and black and coloured ink for the printer.

***Nid yw LH wedi cael tâl am y bil hwn oherwydd mae angen sortio mandad y banc allan yn gyntaf. / * LH has not paid for this bill because the bank's mandate needs to be sorted out first.**

Efalle, bydd **CD** yn gallu helpu ni i agor cyfrif busnes gyda Amazon? er mwyn i ni cael prynu papur ag inc yn lle mynd allan i siopa?

Maybe CD be able to help us open a business account with Amazon? so that we can buy a paper and ink instead of going out shopping?

- 5.3 Taliadau wedi Derbyn / *Payments Received*
£0.71 - Llog banc i cyfrif "BMM" / Bank interest for "BMM" account.

Cynigwyd gan **MEE**, Eiliwyd gan **AT**. / *Proposed by MEE, Seconded by AT*

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

- 6.0.1 Ffurflenni Cofrestr Buddiannau – Diweddarau, ffurflen gan **MEE**, **CD** a **CW** i wddod. Wedi derbyn Ffurflen Cofrestr Buddiannau gan **CW**, **MEE** eisiau ffurflen arall, **CD** i wddod.

Benefits Register Forms – Update, MEE, CD and CW outstanding. Received Benefits Register Form from CW, MEE would like another form, CD still outstanding.

- 6.0.2 Cae Chwarae - Adroddiad gan RoSPA / Asesiad Risg / *Playing Field - ROSPA report / Risk Assessment*

Nid yw **MEE** am trin / trwsio cae chwarae dim mwy. Debyg bod postiau y "multiframe" yn cae chwarae yn pydru ag y bydd angen tynnu hwn i lawr? Mae'r sleid i weld yn iawn. Bydd angen newid y matiau sydd o dan y ddau siglen mawr / bach a rhoi "wet pour" yno yn ei le? Mae angen cyfarfod brys yn y cae chwarae nos Fawrth nesaf 1/5/2018 am 6.30y.h. er mwyn i'r aelodau gweld yr offer "Risg Uchel" gan fod angen i ni werthuso faint o rannau sy'n pydru ac asesu cyflwr y ffrâm multiplay cyn ein harolygiad nesaf hwyrach ymlaen yn y flwyddyn. Bydd angen chwilio am grantiau er mwyn i ni cael prynu offer newydd yn lle y "multiframe". Pryd mae grant Shell ar gael? Efallie bydd angen cysylltu a Carol Snowden o CSYM i weld beth yw'r sefyllfa? Dangosodd **LH** y catalog a rhestr pris wnaeth hi dderbyn gan **CW** er mwyn i'r aelodau cael syniad oherwydd bydd angen 3 gwahanol pris arnom er mwyn i ni cael ceisio an grantiau. Efallie bydd **MEE** a **CW** yn gallu cydweithio i gael offer newydd yn y parc? A oes grantiau eraill ar gael? Oes - Gronfa Gymunedol Watkin Jones a wnaethom dderbyn gan **CW**.

MEE does not want to handle / repair in a playground no more. Is it likely that the "multiframe" post is a decay playing field that will need to be removed? The slide seems to be fine. The mats under both large / small swings will need to be changed and replaced with "wet pour" instead. There is an urgent meeting in the playing field next Tuesday, 1/5/2018 at 6.30pm. so that members see the "High Risk" equipment as we need to evaluate how many decaying parts there are and assess the condition of the multiplay frame before our next inspection later in the year. Grants will need to be searched so that we can buy new equipment instead of the "multiframe". When is the Shell grant available? You will need to contact Carol Snowden from the Anglesey County Council to see what the situation is. LH showed the catalogue and price list she had received from CW so that the members get an idea. We shall need 3 different pricing so we could get the grants. Can MEE and CW work together to get new equipment in the park. Are there other grants available? Yes - Watkin Jones Community Fund that we received from CW.

- 6.0.3 Ystâd Bryn y Gelli - Lampau Goleuo Stryd Ddiffygiol / *Street lamps defects*
LH yn gallu cadarnhau bod y gwaith wedi cael ei cwblhau ar 6/4/2018.
***LH** can confirm that the work has been completed on 6/4/2018.*
- 6.0.4 Cae Pêl Droed Maes Chwarae - Rhwydi goliau / *Playground Football Field - Goals netting*
 Mae **CW** wedi gadael neges yn dweud mae ganddo syniad sut i ddatrys y rhwydi drost dro? Mynd i Brookes Tarpaulin ond bydd rhaid iddynt fesur y gôl. Debyg byddem methu rhoi 'ULTRA MESH FENCING' ar y goliau oherwydd nid yw'r siap y gôl yn gywir? **MEE** wedi cael pris gan Huws Gray ond bydd rhaid aros i gael dau bris arall? Mae angen trwsio'r gôl wrth ymyl y llwybr oherwydd mae o yn denu fandaliaid ond, hefyd yn cael llawer o ddefnydd. I'w drafod eto yn ystod cyfarfod mis Mai.
***CW** has left a message saying he has a "quick fix" idea? Going to Tarpaulin Brookes but they will have to measure the goal. Would we be able to put 'ULTRA MESH FENCING' on the goals because the shape of the goal is not correct? **MEE** got a price from Huws Gray but will have to wait for two other prices? The goal next to the path needs to be repaired as it attracts vandals but also has a lot of use. To be discussed again during the May meeting.*
- 6.0.5 Apwyntiad Swydd Clerc / *Clerk Job Appointment*
 Does neb wedi dangos diddordeb yn y swydd y clerc ar ôl hysbysu'r swydd unwaith eto yn Papur Menai, gwefan cymdeithasol, ar lafar ac trwy ebost. Mae **LH** wedi sôn wrth yr cynghorwyr ei bod hi'n hapus i gamu i lawr fel Cadeirydd ag os fydd rhaid i ymddiswyddo fel cynghorydd oddi ar Cyngor Cymuned Llanidan fel y gall cymeru drosodd swydd y clerc yn barhaol? Mae Cyngor Cymuned Llanidan angen clerc ac os ydynt am benodi **LH** byddent yn torri Côd Ymddygiad trwy wneud hyn yn gywir gydag ymwybyddiaeth Un Llais Cymru. Mae **ST** am ysgrifennu llythyr i Un Llais Cymru i ddweud beth rydym yn bwriadu ei wneud, a gofyn "Pa ffordd yw orau i wneud hyn, er mwyn i ni cael symud ymlaen?" Mae **LH** am ebostio **ST** gyda'r ebost wnaeth hi dderbyn gan Un Llais Cymru yn sôn am y rheolau.
*No one has shown an interest in the clerk's vacancy, after advertising the post once again in Papur Menai, social website, both orally and by email. **LH** has informed the councillors that she is happy to step down as Chairperson and if she is happy to resign as a councillor from Llanidan Community Council so that she can take over the clerk's post permanently. Llanidan Community Council needs a clerk and if they want to appoint **LH** they would breach a Code of Conduct by doing this correctly with awareness from One Voice Wales. **ST** wants to write a letter to One Voice Wales to say what we are proposing to do, and to ask "What way is best to do this, so that we can move forward?" **LH** wanted to email **ST** with the email she received One Voice Wales mentioning about the rules.*
- 6.0.6 Aelodau Newydd – Enwebiad / *New Members – Nominations*
 Mae **ST** wedi ymweld ag adran etholiad CSYM i ofyn sut rydym yn cyfethol aelodau newydd sydd hefo diddordeb i ymuno a ni ar y Cyngor Cymuned.

Nid oes angen iddynt lenwi ffurflen ond iddynt ysgrifennu llythyr yn dweud "Mae gen i ddiddordeb mewn ymuno". Unwaith y bydd y Cyngor Cymuned derbyn llythyr, bydd yn rhaid i'r cynghorwyr gael trafodaeth yn y cyfarfod canlynol ac os rydym am dderbyn y person bydd rhaid iddynt arwyddo ffurflen Côt Ymddygiad ar ôl iddynt gael eu derbyn.

ST has visited Anglesey County Council's election department to ask how we co-opt new members who are interested to join us on the Community Council. They do not need to fill in a form, but write a letter saying "I'm interested in joining". Once the Community Council has received a letter, the councillors will have to have a discussion at the following meeting and if we want to accept the person they will have to sign a Code of Conduct form after they have been accepted.

6.0.7 Stad Tyn Bryn, Brynsiencyn / Tyn Bryn Estate, Brynsiencyn

LH wedi derbyn ymateb trwy ebost gan Mr Alun Roberts ac wedi pasio'r ebost ymlaen i **AT**, darllenwyd y llythyr yn y cyfarfod. Mae CSYM am roi'r llythyr yma yn ffeil a nid yw trigolion Stad Tyn Bryn yn hapus. Bydd yn gwenud mwy o synnwyr i bawb barcio ar un ochr i'r lôn. Mae angen fwy o lefydd parcio ar Brynsiencyn oherwydd bydd y ceir yn symud i barcio ar y lôn fawr. Dylem wahodd PCSO lleol i ddod i ein cyfarfod mis nesaf gan nad ydynt wedi bod ers sawl mis a thrafod y mater yma gyda nhw? Mae **AT** yn gweld yn aml hoelion/sagriws ar hyd Lôn Uchaf. I'w drafod eto yn ystod cyfarfod mis Mai.

LH received a response by email from Mr Alun Roberts and passed the email to AT, the letter was read at the meeting. IACC has filed this letter and the residents of the Tyn Bryn Estate are not happy. It will make more sense for everyone to park on one side of the lane. There is a need for more parking spaces at Brynsiencyn as the cars will move to park on the main road. Should we invite a local PCSO to come to our next month meeting as they have not been for several months and discuss this issue with them? AT often sees nails / screws along Upper Lane. To be discussed again during the May meeting.

6.0.8 Cynllun Gweithredu Brynsiencyn Action Plan.

Diweddariad? / Update?

Penderfynwyd gadael hwn tan cyfarfod mis Mai. / It was decided to leave this until May's meeting.

6.0.9 Hysbyseb Cynnal y Llwybrau Cyhoeddus yn ardal Llanidan / Advertise Maintaining Public Footpaths in the Llanidan area.

Penderfynwyd y bydd angen i ni gynnwys prisiau yn gofyn am 1 toriad ag am 2 doriad ar ôl llwybrau cyhoeddus, e.e. toriad cyntaf ar ddechrau mis Mehefin ac ail toriad ddiwedd mis Medi. Bydd angen hysbysu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar y poster.

It was decided that we would need to include prices requiring 1 cut and 2 cuttings on public footpaths, e.g. first cut in early June and second at the end of September. Public Liability Insurance will need to be notified on the poster.

- 6.1.0 *Yswiriant y Cyngor Cymuned / Community Council Insurance*
 Dal i aros am y dyfynbris 1 mlynedd, 3 mlynedd a 5 mlynedd gan Zurich sydd yn cynnwys yswirio adeilad Y Ganolfan.
Still waiting for the quotation from 1 year, 3 years and 5 years by Zurich which includes insuring the Y Ganolfan building.
- 6.1.1 *Angen diweddaru gwefan Cyngor Cymuned Llanidan / Need to update Llanidan Community Council website.*
 Mae **DR** yn ymddiheuro bod gwefan Cyngor Cymuned i lawr. Mae'n gobeithio ail-osod y wefan yn fuan iawn a bydd yn addasu i ffônau symudol a'r cyfrifiadur. Mae **DR** angen enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt cynghorwyr Cyngor Cymuned Llanidan er mwyn iddo cael rhoi y gwybodaeth yma ar y gwefan. Bydd yn hawsach i rhoi cofnodion ar y wefan oherwydd eu bod ar yr un dudalen nawr.
***DR** apologises that the Community Council website is down. He hopes to re-install the website very soon and will adapt to mobile phones and the computer. **DR** needs the name, address and contact number of Llanidan Community Council members so that he can put this information on the website. It will be easier to put minutes on the website because they are on the same page.*
- 6.1.2 *Diweddaru Rhestr Asedau / Asesiad Risg / Update Asset List/ Risk Assessment*
 Angen adolygu / diweddaru asesiad risg. / *Need to review / update risk assessment.*
 Mae **MEE** yn cael golwg sydyn ac os byddem yn newid offer yn cae chwarae byddem angen newid rhain. I'w drafod eto yn ystod cyfarfod mis Mai.
***MEE** has a quick look and if we change equipment in the playground we would need to change these. To be discussed again during May's meeting.*
- 6.1.3 Bydd **LH** angen paratoi llyfr cyfrifon o 1/4/2017 hyd at 31/3/2018 yn barod at yr archwiliad mewnol. Mae **LH** wedi siarad gyda'r archwilydd mewnol yn gofyn am estyniad tan o leiaf 15/5/18 ac efallai bydd angen estyniad ychwanegol? Mae **LH** angen help gyda'r ffigurau enwedig gyda angen i baratoi llyfrau ymlaen llaw ar gyfer yr archwiliad mewnol canol mis Mai. Eglurodd **LH** ei bod hi wedi dechrau paratoi'r ffigurau blynyddol ond heb fod yn siŵr sut i'w rhoi yn ysgrifenedig. A fydd **CD** yn gallu helpu trwy gychwyn templed ar "spreadsheet"? Bydd **MEE** yn gofyn i **CD** os bydd yn gallu helpu neu beidio. Bydd angen cyfarfod brys rhwng **LH**, **ST** a **CD** ymhen bythefnos (nos Fawrth 8fed Mai 2018), i wneud yn siŵr bod y cyfrifon yn gywir cyn yr archwiliad mewnol.
***LH** will need to prepare the accounts book from 1/4/2017 up to 31/3/2018 ready for the internal audit. **LH** has spoken to the internal auditor asking for an extension to at least 15/5/18 and a further extension may be required? **LH** needs help with the figures especially with the need to prepare books in*

advance for the internal audit mid May. LH explained that she had started preparing the annual figures but not sure how to put them in writing. Will CD will be able to help by starting a spreadsheet template? MEE will ask CD if he'll be able to help or not. There will be an urgent meeting between LH, ST and CD in two weeks (Tuesday 8th May 2018), to make sure the accounts are correct before the internal audit.

- 6.1.4 Angen prynu llyfr cofnodion "Minute Book" newydd gan Shaw & Sons Limited, pris yw £137.00 & TAW = £164.40. Penderfynwyd i'w drafod eto yn ystod cyfarfod mis Mai ar ôl i fandad y banc cael ei datrys.
Need to buy a new "Minute Book" from Shaw & Sons Limited, price is £137.00 & VAT = £164.40. It was decided to be discussed again during the May's meeting after the bank's mandate is sorted out.
- 6.1.5 Cyfarfod waharddiad Pwysau Drost Dro, 18/4/2018/ Temporary Weight Limit meeting, 18/4/2018 - Lôn Bryn Ceinwen & Lôn Bodrida.
Gawsom adroddiad gan DR ynglyn a trio rhoi gorau i lorïau dros 18 tonnall heblaw am lorïau llefrith sy'n mynychu'r ffermydd ar hyd y lonydd yma. Mae'r lorïau yn difrodi y ddwy lôn yma enwedig ger fferm Cefn Maesoglan a bydd angen cyrbiau isel. Cytunodd y ffermwr a CSYM i gydweithio.
We received a report from DR about trying to give up over 18 tonnes apart from milk lorries that attend the farms along these lanes. The traffic is damaging these two lanes, especially near Cefn Maesoglan farm and low curbs will be required. The farmer and the IACC agreed to work together.
- 6.1.6 LH wedi derbyn llythyr gan ysgrifenyddes Eglwys Llanidan yn gofyn am cais gyfraniad ariannol tuag at cynnal a chadw'r fynwent am y flwyddyn 2018/19. Penderfynwyd i'w drafod eto yn ystod cyfarfod mis Mai ar ôl i fandad y banc cael ei datrys.
LH had received a letter from the secretary of Llanidan Church requesting a request a financial contribution towards the maintenance of the churchyard for the year 2018/19. It was decided to be discussed again during the May's meeting after the bank's mandate is sorted out.

7. Cynllunio / Planning

- 7.1 Ceisiadau / Applications
Dim / None
- 7.2 Penderfyniadau / Decisions
Dim / None

8. Gohebiaethau / Correspondence

Rhestrir y gohebiaethau â dderbyniwyd er gwybodaeth yn llawn yn agenda'r cyfarfod.
Correspondence received for full information is listed in the meeting agenda.

9. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

- 9.1 Grant Chwarae Cymunedol / Community Play Grant

Penderfynwyd gadael hwn tan mis cyfarfod mis Mai.
It was decided to leave this until May's meeting.

9.2 Adroddiad Cyngorydd Dafydd Roberts / Councillor Dafydd Roberts Report

Adroddwyd bod pennaeth Ysgol Parc y Bont, Mr Iwan Taylor am parhau fel pennaeth yn Ysgol Brynsiencyn, tan o leiaf haf 2018 er mwyn arbed arian. Mae'n debyg bydd llywodraethwyr o'r ddwy ysgol yn ymuno gyda'i gilydd. Bydd yna cyfarfod gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd o'r ddwy ysgol yn Llangefni i drafod hyn.

It was reported that the head of Parc y Bont School, Mr Iwan Taylor wanted to continue as a headteacher at Ysgol Brynsiencyn, until at least the summer of 2018 to save money. Governors from both schools will probably merge together. There will be a meeting with the Chairperson and Vice Chairperson of both schools in Llangefni to discuss this.

9.3 Mae MEE yn dweud bod baw ci yn ofnadwy ar hyd mynedfa stad Bryn Eithin ac wrth ymyl troead Lôn Barras. Dylem wahodd PCSO lleol i ddod i ein cyfarfod mis nesaf gan nad ydynt wedi bod ers sawl mis a thrafod y mater yma gyda nhw?

MEE says that dog fouling is terrible along the entrance to Bryn Eithin estate and adjacent to Barras Lane. Should we invite a local PCSO to come to our next month meeting as they have not been for several months and discussed this issue with them?

9.4 Mae MEE yn dweud ei fod yn ymddiswyddo ar lafar oddi ar fwrdd y llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn fel cynrychiolwyr Cyngor Cymuned Llanidan. Bydd angen arnym i ni benodi cynghorwr arall i gynrychioli'r gymuned. LH yn gofyn am ymddiswyddiad swyddogol ysgrifenedig. Penderfynwyd trafod hwn yn cyfarfod mis Mai.

MEE says he has resigned orally from the board of governors at Brynsiencyn School as representative of Llanidan Community Council. We will need to appoint another councillor to represent the community. LH has asked for official written resignation. It was decided to discuss this during May's meeting.

10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Nos Fawrth, 29/05/2018 am 7 o'r gloch yn 'Y Ganolfan'.
Tuesday Evening, 29/05/2018 at 7 o'clock at 'Y Ganolfan'.

10.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 9.20y.h.

The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 9.20pm.

Arwyddwyd – Cadeirydd / Signed – Chairperson

Dyddiad / Date: